SWYDDFA COMISIYNYDD HEDDLU
A THROSEDD GOGLEDD CYMRU

OFFICE OF THE POLICE & CRIME
COMMISSIONER NORTH WALES

# Cyflwyniad i Ddatganiad Cyfrifon y Comisiynydd Heddlu a Throsedd a'r Grŵp ar gyfer

# 2023/24



www.northwales-pcc.gov.uk

# Cyflwyniad gan y Comisiynydd Heddlu a Throsedd



Roedd hi'n fraint aruthrol cael fy ail-ethol gan bobl Gogledd Cymru ym mis Mai 2024. Mae'n dangos eu bod yn hapus hefo'r gwaith rwyf wedi bod yn ei wneud ers 2021 er mwyn gwneud plismona yn fwy effeithiol, effeithlon ac atebol. Mae mwy o waith y gallwn ei wneud bob amser, ac edrychaf ymlaen at wasanaethu holl bobl Gogledd Cymru, p'un a ydynt wedi pleidleisio i mi ai peidio.

Mae 2023/24 wedi bod yn flwyddyn lwyddiannus iawn i Heddlu Gogledd Cymru a'm Swyddfa i. Cafodd Ymgyrch Uplift – sef y cynllun i gael 20,000 yn fwy o swyddogion heddlu yn genedlaethol – ei chynnal, hefo Heddlu Gogledd Cymru yn cyrraedd ei darged o 206 o swyddogion ychwanegol ar y dyddiadau allweddol. Roedd hyn yn sicrhau ein bod yn gallu derbyn yr uchafswm grant oedd ar gael i ariannu'r swyddogion hyn.

Mae effaith cael y swyddogion ychwanegol hyn, a'r staff i'w cynorthwyo, yn golygu eu bod yn gallu ymdrin â mwy o alw nag o'r blaen. Yn y flwyddyn ariannol rhwng mis Ebrill 2023 a mis Mawrth 2024, roedd y meysydd galw allweddol yn cynnwys:

**Galwadau 999**
**119,552**
(cynnydd o **12%**)

**101 o alwadau**
**241,327**
(cynnydd o **3%**)

**Arestiadau**
**19,552**
(cynnydd o **10%**)

**Cyswllt digidol**
**88,162**
(Sgyrsiau we **24,805** a negeseuon e-bost **63,357**)

**Ymateb i ddigwyddiadau**
**61,479**

Rydym wedi gweld y newidiadau canlynol mewn troseddau a adroddwyd yn cael eu cofnodi o'i gymharu â'r 12 mis blaenorol:

**Troseddau cyffredinol: i lawr -13.1%**
(i lawr o 63,624 i 55,312)

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Trais yn erbyn merched a genethod** (i lawr o 15,123 i 12,415) | -17.9% | **Trais heb anaf** (i lawr o 11,472 i 9,761) | -11.7% |
| **Trosedd casineb** (i lawr o 1,285 i 1,019) | -20.7% | **Stelcian ac aflonyddu** (i lawr o 13,341 i 11,477) | -14.9% |
| **Treisio** (i lawr o 1,878 i 1,611) | -14.2% | **Byrgleriaeth (preswyl)** (i lawr o 1,328 i 1,165) | -12.3% |
| **Trais hefo anaf** (i lawr o 7,307 i 6,678) | -8.6% | **Difrod troseddol a llosgi bwriadol** (i lawr o 7,006 i 6,133) | -12.5% |

Yn ogystal â monitro gwaith yr Heddlu, mae fy swyddfa wedi parhau i weithio gyda sefydliadau eraill i gomisiynu gwasanaethau, hefo'r nod o leihau troseddu a chynorthwyo dioddefwyr, gan gynnwys cyflwyno'r Ddyletswydd Trais Difrifol yn genedlaethol, cymorth parhaus y Ganolfan Cymorth i Ddioddefwyr, amryw o brosiectau strydoedd mwy diogel.

Cymeradwywyd cyllideb refeniw net sef £188.959m yn unfrydol gan y Panel Heddlu a Throsedd ar 30 Ionawr 2023. Ychwanegwyd £4.380m at gronfeydd refeniw wrth gefn ddiwedd mis Mawrth 2024. Cynlluniwyd rhywfaint o hyn yn y gyllideb wreiddiol, ond roedd y mwyafrif yn ymwneud â thanwariant, a oedd yn rhannol gysylltiedig ag amseriad recriwtio, ond a gafodd gymorth mawr hefyd gan y cyfraddau llog uwch a brofwyd gennym yn ystod y flwyddyn. Wrth gwrs, mae hyn hefyd yn adlewyrchu bod cyllidebau yn cael eu rheoli'n dda gan yr heddlu drwy gydol y flwyddyn. Nodwyd a chyflawnwyd arbedion o £3.753 yn ystod y flwyddyn. Mae hyn yn gyflawniad i ymfalchïo ynddo, yn enwedig o ystyried yr arbedion sylweddol sydd wedi gorfod eu canfod bob blwyddyn ers 2010. Mae'r tanwariant hwn wedi'i ychwanegu at fy nghronfeydd wrth gefn ac mae wedi'i ystyried wrth osod y dreth gyngor ar gyfer 2024/25. Gall y Prif Gwnstabl a minnau felly symud ymlaen yn hyderus, gan wybod fod y sefydliadau rydym yn eu harwain mor gadarn yn ariannol ag y gallent fod yn y cyfnod o ansicrwydd presennol.

Os hoffech gael mwy o wybodaeth, ewch ar fy ngwefan, sy'n derbyn oddeutu 3,000 o ymwelwyr bob mis. Gallwch hefyd tanysgrifio i'n cylchlythyr bob pythefnos fel mae bron i 900 o bobl.

**Andy Dunbobbin**
Comisiynydd Heddlu a Throsedd



# Cyflwyniad gan y Prif Swyddog Cyllid

Mae'r Cod Ymarfer ar Gyfrifyddu Llywodraeth Leol yn y Deyrnas Unedig 2023/24 (CIPFA/LASAAC) yn rhoi arweiniad i ni ar sut y dylem baratoi ein cyfrifon er mwyn cydymffurfio â Safonau Hysbysu Ariannol Rhyngwladol. Gwneir hyn hefyd yn unol â deddfwriaeth, sy'n gofyn i ni ddangos mantolen cronfeydd y trethdalwyr (cronfeydd wrth gefn a ellir eu defnyddio) ar ddiwedd y flwyddyn ariannol.

Tra bod rhaid i ni gydymffurfio gyda'r gofynion hyn wrth baratoi ein Datganiad Cyfrifon ar gyfer y diben o osod y dreth gyngor a monitro incwm a gwariant, rydym yn mesur ein cyflawniad ariannol yn y flwyddyn drwy gymharu ein cyllideb gydag ein halldro (incwm presennol a gwariant yn y flwyddyn) a'r effaith ar y gronfa wrth gefn ddefnyddiadwy.

## Ar ddiwedd y flwyddyn ariannol, trosglwyddodd y Comisiynydd Heddlu a Throsedd £4.590m i'r cronfeydd wrth gefn:

| Cynllun | **Balans agoriadol** 1 Ebrill 2023 | **Symudiad yn y Gronfa wrth Gefn** | **Balans clo** 31 Mawrth 2024 |
|---|---|---|---|
| | **£m** | **£m** | **£m** |
| Cronfa wrth Gefn Gyffredinol | 6.120 | - | 6.120 |
| Cronfeydd wrth Gefn a Glustnodwyd | 41.492 | 4.380 | 45.872 |
| **Cyfanswm Cronfeydd Refeniw wrth Gefn** | **47.612** | **4.380** | **51.992** |
| Cronfa Derbynebau Cyfalaf wrth Gefn | 3.577 | 0.210 | 3.787 |
| **Cyfanswm Cronfeydd wrth Gefn Defnyddiadwy** | **51.187** | **4.590** | **55.779** |

Mae angen i'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd gadw cronfeydd wrth gefn. Nid oes hawl ganddo osod cyllideb a allai adael y cronfeydd wrth gefn a ellir eu defnyddio wedi eu gordynnu. Cyhoeddir rhestr lawn o'r cronfeydd wrth gefn hyn ac eglurhad am y symudiadau o fewn Adroddiad Naratif Datganiad Cyfrifon y CHTh a'r Grŵp

## Cyllideb Refeniw

Cyflawnwyd arbedion arfaethedig o £3.753m yn ystod y flwyddyn. Roedd hon yn orchest drawiadol wrth ystyried yr arbedion sydd wedi gorfod cael eu gwneud ers 2010. Trosglwyddwyd cyfanswm o £4.590m (net) i gronfeydd wrth gefn ddiwedd mis Mawrth 2024. Mae £3.565m yn berthnasol i danwariant refeniw. Mae'r tanwariant hwn wedi'i ddyrannu i gronfeydd wrth gefn wedi'u clustnodi, a fydd yn ein galluogi i liniaru costau yn y dyfodol, a buddsoddi mewn prosiectau cyfalaf a newid.

| Gwariant Refeniw | Cyllideb Ddiwygiedig 2023/2024 | Alldro (Presennol) 2023/2024 | Gorwario/ (Tan)wario Amrywiant |
|---|---|---|---|
| | £m | £m | £m |
| Costau Cyflog Gweithwyr | 165.210 | 163.800 | (1.410) |
| Costau Gweithwyr Eraill | 7.540 | 8.361 | 0.821 |
| Costau Rhedeg Nad Ydynt Yn Rhai Staff | 44.664 | 43.941 | (0.723) |
| Cyllid Cyfalaf | 5.069 | 5.167 | 0.098 |
| Cronfa Diogelwch Cymunedol y CHTh a Phartneriaid | 10.035 | 10.183 | 0.148 |
| Incwm ac Ailgodi tâl | (21.067) | (22.924) | (1.857) |
| Grantiau Penodol | (23.307) | (23.949) | (0.642) |
| **Gwariant Gweithredu** | **188.144** | **184.579** | **(3.565)** |
| Trosglwyddiad net i Gronfeydd Refeniw Wrth Gefn wedi'u Clustnodi | 0.815 | 4.380 | 3.565 |
| **Gwariant Net** | **188.959** | **188.959** | **-** |
| **Ariennir gan:** | | | |
| Grantiau Llywodraeth | 88.715 | 88.715 | - |
| Praesept (Treth Gyngor) | 100.244 | 100.244 | - |
| **Cyfanswm Cyllid** | **188.959** | **188.959** | **-** |

Mae amrywiant sylweddol yn cynnwys:

- **Costau cyflog gweithwyr – tanwariant** £1.410m
  Mae cyflog yn cyfrif am 71% o'r gyllideb gwariant. Cododd y tanwariant yn bennaf oherwydd trosiant staff a swyddogion. Roedd ymddiswyddiadau swyddogion yn uwch yn 2023/24 o'i gymharu â lefelau hanesyddol, er ei fod yn llawer is na'r rhan fwyaf o ardaloedd plismona eraill.

- **Costau gweithwyr eraill - gorwariant** £0.821m
  Mae'r prif amrywiant yn ymwneud â'r ddarpariaeth Cyflogwr ac Atebolrwydd Cyhoeddus (EL/PL). Caiff darpariaethau eu creu yn y cyfrifon yn y flwyddyn pan hysbysir o atebolrwydd posibl, ac mae amcangyfrif o'r gost. Oherwydd cynnydd yn nifer a gwerth hawliadau yswiriant, cynyddwyd y ddarpariaeth hon £0.596m yn 2023/24.

- **Costau Rhedeg nad ydynt yn rhai staff - tanwariant** £0.723m
  Roedd tanwariant ar draws sawl ardal, gan gynnwys ystadau a thrafnidiaeth. O ddiddordeb arbennig mae gostyngiad mewn costau ynni, ac ail-drafod ein cytundeb yswiriant cerbyd.  Roedd gwariant ychwanegol ar ddodrefn ac offer er mwyn hwyluso'r rhaglen waith ystwyth, ac ar argraffu a deunydd ysgrifennu er mwyn cynorthwyo'r fenter "Dangos y Drws i Drosedd".

- **Incwm - incwm ychwanegol** £1.857m
  Mae incwm buddsoddi wedi cynyddu yn unol â chyfraddau llog, a bu incwm gan y Gwasanaeth Mewnfudo (Ymgyrch Safeguard) ac ad-daliad o ardrethi busnes yn dilyn apeliadau.

Mae cost Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn cael ei gynnwys yn yr uchod. Y gyllideb ddiwygiedig ar gyfer y flwyddyn oedd £1.164m a'r alldro oedd £1.199m. Mae gorwariant cyffredinol o £0.043m yn berthnasol i'r cyfraniadau i gydweithrediadau wedi'i ariannu gan Gronfa Gyffredinol wrth Gefn SCHTh. Cyfrannwyd £0.006m i gronfa gyfreithiol wrth gefn SCHTh.

## Cyllideb Gyfalaf

Mae'r tabl gwariant refeniw yn cynnwys effaith gwariant cyfalaf yn ystod y flwyddyn ar y cyfrif incwm a gwariant a'r cronfeydd wrth gefn.  Mae'r rhaglen cyfalaf yn cynnwys gwariant ar asedau gydag oes ddefnyddiol o fwy nag un flwyddyn, fel tir, adeiladau, cerbydau a pheth offer TG. Pan fydd asedau yn cael eu gwerthu, rhaid i dderbynebau dros £10,000 gael eu trosglwyddo i'r Gronfa Derbyniadau Cyfalaf wrth Gefn. Gellir eu defnyddio yn unig er mwyn ariannu rhaglen gyfalaf neu ad-dalu dyled.  (Mewn cyferbyniad, mae'r gronfa wrth gefn sydd wedi ei chlustnodi o'r enw'r Gronfa Gyfalaf wrth Gefn yn deillio o refeniw. Gall y Comisiynydd drosglwyddo symiau rhwng y gronfa gyffredinol ac unrhyw gronfa wrth gefn wedi ei chlustnodi fel y gwêl yn briodol. Mae'r cronfeydd wrth gefn hyn yn cael eu hadolygu yn rheolaidd er mwyn sicrhau eu bod yn cael eu dyrannu yn briodol er mwyn cyflawni'r Cynllun Heddlu a Throsedd.)

Y rhaglen gyfalaf wreiddiol ar gyfer 2023/24 oedd £12.212m. Wedi addasiadau ar gyfer llithriant ac ailbroffilio, roedd y rhaglen gyfalaf ddiwygiedig ar gyfer y flwyddyn yn £6.635m. Yr alldro ar gyfer y flwyddyn oedd £4.931m.

| Gwariant Cyfalaf | Cyllideb Ddiwygiedig | Gwariant | Amrywiant |
|---|---|---|---|
| | £m | £m | £m |
| Gwaith Adeiladu | 2.209 | 1.298 | (0.911) |
| Cerbydau ac Offer Eraill | 2.467 | 2.384 | (0.083) |
| Technoleg Gwybodaeth ac Offer | 1.959 | 1.249 | (0.710) |
| **Cyfanswm Gwariant Cyfalaf** | **6.635** | **4.931** | **(1.704)** |
| **Cyllid:** | | | |
| Grant Llywodraeth Cymru | 0.620 | 0.532 | (0.088) |
| Cyfraniad Refeniw | 3.358 | 3.614 | 0.256 |
| Cronfa wrth Gefn a Glustnodwyd | 0.966 | - | (0.966) |
| Derbynebau Cyfalaf | 0.200 | - | (0.200) |
| Benthyca ar gyfer Ystadau | 1.366 | 0.485 | (0.881) |
| Benthyca ar gyfer Rhaglen Amnewid | 0.125 | 0.300 | 0.175 |
| **Cyfanswm Cyllid Cyfalaf** | **6.635** | **4.931** | **(1.704)** |

Cafodd y Ganolfan Atgyfeirio Ymosodiadau Rhywiol ei hadnewyddu a chwblhawyd y gwaith uwchraddio yn 2023/24, gan ddod yn weithredol ar ddechrau 2024/25.

Dechreuodd y prosiect i adnewyddu Gorsaf Heddlu Caernarfon yn ystod 2023/24 ond ni chafodd ei gwblhau tan fis Mehefin 2024.

Cafodd y cynllun mawr i adeiladu gorsaf heddlu newydd yng Nghaergybi ei ohirio oherwydd problemau cynllunio a phroblemau eraill, a oedd yn gohirio'r broses dendro. Disgwylir i'r gwaith ddechrau yn ystod haf/hydref 2024.

Dechreuodd rhaglen uwchraddio Digidol a TG drawsbynciol sylweddol yn 2019/20 a pharhaodd i 2023/24.  Mae cyflwyno gliniaduron personol a chamerâu corff i swyddogion a oedd gynt yn rhannu offer bellach wedi'i gyflawni. Bydd prosiectau TG mawr, gan gynnwys amnewid gweinyddwyr, gwelliannau i'r system reoli, ac offer teleffoni yn parhau trwy gydol 2024/25 a thu hwnt.

## Cysoni Cyllid sydd ar gael a GAAP

Mae’r cyflwyniad hwn yn dangos sut mae’r cyllid sydd ar gael i’r Comisiynydd Heddlu a Throsedd wedi’i wario er mwyn darparu gwasanaethau, o’i gymharu â’r gyllideb. Ar y sail hon y rheolir gwariant ac incwm bob dydd. Adlewyrcha hyn y sefyllfa ariannu, sy’n angenrheidiol o dan ddeddfwriaeth.

Fodd bynnag, mae’r prif ddatganiadau cyfrifyddu yn Natganiad Cyfrifon y CHTh a’r Grŵp yn cael eu paratoi a’u cyflwyno yn unol ag arferion cyfrifyddu a dderbynnir (GAAP). Maent yn dangos y gost gyfrifyddu mewn blwyddyn yn hytrach na’r swm sydd i’w ariannu o drethiant. Ceir addasiad wedyn rhwng y sail cyfrifyddu a sail ariannu o dan reoliadau.